

## Tynnu Dant (Echdyniad\*)

### Beth mae hynny'n ei olygu?

Bydd dant sydd wedi pydru'n arw, wedi'i ddifrodi\*, neu'n rhydd oherwydd clefyd y gorchfan\*, o bosib yn gorfod cael ei echdynnu\* (ei dynnu allan o'r geg).

Mae trydydd cilddannedd\* weithiau'n gorfod cael eu tynnu os ydynt wedi dod trwodd ar ongl letchwith ac yn achosi problemau (fel pydredd\* mewn dannedd cyfagos neu eu bod yn anodd eu glanhau, ac yn achosi haint\*).

Mae dannedd weithiau'n cael eu tynnu allan o gegau plant er mwyn bod o gymorth i ddannedd eraill, sydd wedi ymdyrru\*, dyfu'n syth (fel arfer yn dilyn cyngor gan orthodontegydd).



### Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Mae rhai dannedd yn haws i'w tynnu nag eraill. Bydd anesthetig lleol (pigiad yn eich ceg) yn cael ei ddefnyddio i wneud y dant yn ddideimlad cyn iddo gael ei dynnu; dyma'r driniaeth orau i'r rhan fwyaf o gleifion.

Mewn rhai achosion, yn achos plant neu gleifion nerfus, neu pan all dant fod yn anodd ei dynnu, mae'n bosib y bydd tawelydd\* (rhywbeth i'ch ymlacio chi) gydag anesthetig lleol yn cael ei ddefnyddio.

Ar adegau prin, gellid ystyried defnyddio anesthetig cyffredinol. Pe bai angen anesthetig cyffredinol, byddai'n rhaid i chi fynd i'r ysbyty neu i ganolfan driniaeth arbenigol (byddech yn debygol o gael mynd adref yr un diwrnod, ond nid yw pob claf yn gallu gwneud hynny).

### Ar ôl penderfynu ar y ffordd orau i dynnu'r dant, bydd eich deintydd yn trafod gyda chi:

- sut i wneud yn siŵr na theimlwch ond y mymryn lleiaf tra mae'r dant yn cael ei dynnu.
- a ddylech chi ddod â rhywun efo chi os ydych chi am gael cyffur lliniaru neu anesthetig lleol
- pryd y bydd yn gyfleus i chi gael tynnu'r dant.
- math arall o driniaeth y gallech fod ei hangen, efallai – er enghraifft, pe bai angen dannedd gosod arnoch ai peidio.

### Wrth i'r dant gael ei dynnu allan

Mae'n bosib y byddwch yn clywed ychydig o sŵn a theimlo mymryn o bwysau gan y deintydd wrth i'r dant gael ei dynnu allan yn araf – ond ni ddylech deimlo unrhyw fath o boen. Weithiau, mae pwythau'n cael eu rhoi yn y gorchfan i leihau unrhyw waedu ar ôl yr echdyniad, i wneud y lle cyn o gwmpas lle bu'r dant yn fwy cyfforddus ac i'w helpu i wella'n gyflym.

### Wedyn

Mae'n bosib y bydd arnoch angen diwrnod neu ddau yn rhydd o'ch gwaith i wella, yn dibynnu ar ba mor anodd yr oedd yr echdyniad ac a ddefnyddid cyffur lliniaru ynteu anesthetig cyffredinol. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn cael llawer o anesmwythyd\* ar ôl y driniaeth. Bydd y deintydd yn sicrhau bod y gwaedu wedi stopio cyn i chi adael y practis. Ni ddylech ysmegu nac yfed alcohol am o leiaf 24 awr ar ôl i chi gael tynnu dant.

### Bydd y deintydd yn cynnig cyngor i chi ar y canlynol:

- sut i edrych ar ôl y bwlch lle'r oedd y dant, tra mae'n gwella.
- pa leddfwr poen\* sydd yn addas i'w defnyddio fel na fyddwch mewn unrhyw anesmwythyd ar ôl i'r anesthetig golli'i effaith.
- sut i gysylltu â'r practis pe bai unrhyw broblemau.

**GEIRFA:** anesmwythyd = discomfort; clefyd y gorchfan = gum disease; difrodi = to damage; echdyniad = extraction; echdynnu = to extract; gorchfan(nau) – 'gym(s)' ar lafar = gum(s); haint = infection; leddfwr poen = pain killers; pydredd = decay; tawelydd = sedative; trydydd cilddannedd = wisdom teeth; ymdyrru = to crowd / crowding